------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 11 Mai 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

## 70(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i Weinidog yr Economi

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor

(5 munud)

**NNDM8000** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Rhys ab Owen (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn lle Cefin Campbell (Plaid Cymru).

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Yr Holodomor

(60 munud)

**NDM7994** **Alun Davies (Blaenau Gwent)**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod 90 mlynedd eleni ers yr Holodomor: y newyn a laddodd tua 4-6 miliwn o bobl yn Wcráin dros 1932/33.

2. Yn nodi ymhellach bod y newyn hwn wedi digwydd o ganlyniad i weithredoedd a pholisïau bwriadol yr Undeb Sofietaidd.

3. Yn mynegi ei chydymdeimlad ac yn estyn ei chydgefnogaeth i bobl Wcráin ar ran pobl Cymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gychwyn rhaglen goffáu i gofio dioddefwyr yr Holodomor ac i godi ymwybyddiaeth o ddioddefaint pobl Wcráin.

**Cyd-gyflwynwyr**

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)
Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Samuel Kurtz (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)

**Cefnogwyr**

Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Peter Fox (Mynwy)

Vikki Howells (Cwm Cynon)

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Rhestrau aros y GIG

(60 munud)

**NDM7997** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu nad oes gan Lywodraeth Cymru gynllun digonol i fynd i'r afael ag ôl-groniadau rhestrau aros y GIG yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer gofal a gynlluniwyd, a gyhoeddwyd ar 26 Ebrill, wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â chlinigwyr i sicrhau bod targedau'n heriol ond yn gyraeddadwy.

2. Yn nodi ymhellach y bydd manylion gweithredol pellach ynghylch sut y bydd uchelgeisiau'r cynllun yn cael eu cyflawni yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau tymor canolig integredig y GIG sydd wrthi'n cael eu hadolygu.

Trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros

## 7 Dadl Plaid Cymru - Niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol

(60 munud)

**NDM7996** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi y bu 438 o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru yn 2020: y lefel uchaf mewn 20 mlynedd, a chynnydd o 19 y cant ers 2019.

2. Yn gresynu at y cynnydd yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol, derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol, ac achosion o ddibyniaeth ar alcohol yng Nghymru, sy'n effeithio'n anghymesur ar y rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

3. Yn nodi Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019 i 2022 Llywodraeth Cymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu ymrwymiad cryfach, gwell adnoddau a thargedau mesuradwy i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol o fewn cynllun cyflawni newydd ar gyfer camddefnyddio sylweddau o 2023 ymlaen.

Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru 2019 i 2022

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod y bu 438 o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yn benodol yng Nghymru yn 2020: y lefel uchaf mewn 20 mlynedd, a chynnydd o 19 y cant ers 2019.

2. Yn nodi lefelau derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol ac effaith anghymesur alcohol ar gymunedau difreintiedig.

3. Yn nodi Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019 i 2022 Llywodraeth Cymru.

4. Yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru ar gyfer camddefnyddio sylweddau drwy ddiogelu a chlustnodi cyllid ar gyfer hynny yn y gyllideb, y cynnydd o £9m yn y cyllid ar gyfer 2022/23 ac ymrwymiad i gynnydd pellach yn 2023/24 a 2024/25.

**[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]**

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn pryderu bod nifer y triniaethau a ddechreuwyd ar gyfer camddefnyddio sylweddau yng Nghymru wedi gostwng 15 y cant dros y pum mlynedd diwethaf.

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

(5 munud)

**NNDM7999** **Hefin David (Caerffili)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal dros dro Reol Sefydlog 12.73 i ganiatáu i NDM7998 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 11 Mai 2022.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7998** **Hefin David (Caerffili)**

Llwybrau o atgyfeiriadau i ddiagnosis a thu hwnt: yr heriau o fyw gydag awtistiaeth a chyflyrau niwroamrywiol eraill

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 17 Mai 2022

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 04/05/2022 i'w hateb ar 11/05/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

1 OQ58013 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau deintyddiaeth GIG yng Ngorllewin De Cymru?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

2 OQ58017 **(e)**

Pa gamau sy'n cael eu cymryd i leihau amseroedd aros yn Ysbyty Athrofaol y Faenor?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

3 OQ58010 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i ddelio â'r ôl-groniad o lawdriniaeth ddewisol yng Ngogledd Cymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

4 OQ58026 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus cryf gyda chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig Cymru?

**Buffy Williams** *Rhondda*

5 OQ58025 **(e)**

Pa ganran o gysylltiadau gorfodol ag ymwelwyr iechyd drwy raglen Plant Iach Cymru a gynhaliwyd yn y cnawd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

6 OQ58008 **(w)**

Pa gefnogaeth sy'n cael ei roddi gan y Llywodraeth i fyrddau iechyd i'w galluogi i roddi presgripsiynu cymdeithasol ar waith?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

7 OQ58003 **(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynglŷn â mynediad at wasanaethau meddygon teulu yng Nghaerdydd a'r Fro?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

8

OQ57996 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

9

OQ57992 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ynghylch gofal sylfaenol yn etholaeth Ogwr?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

10

OQ58014 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad cleifion at wasanaethau gofal heb ei drefnu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

11

OQ58002 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella perfformiad adrannau achosion brys yng Ngogledd Cymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

12

OQ57995 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o wasanaethau ambiwlans yn sir Benfro?

## GWEINIDOG YR ECONOMI

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

1

OQ58016 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ddenu buddsoddiad economaidd sylweddol i Gasnewydd?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

2

OQ58023 **(e)**

Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i gefnogi undebau credyd?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

3

OQ58006 **(e)** Datganodd yr Aelod fuddiant

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynghylch effaith bosibl Gorchymyn drafft Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022 ar y sector twristiaeth yng Nghymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

4

## OQ57997 (e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i hyrwyddo twristiaeth yng nghymoedd de Cymru?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

5

## OQ58028 (w)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion i achub a chreu swyddi ar hen safle Alwminiwm Môn?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

6

## OQ57991 (e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiad SA1 yn Abertawe?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

7

## OQ58001 (e)

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith economaidd treth dwristiaeth yng Ngogledd Cymru?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

8

## OQ58000 (e)

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi datblygu economaidd yng Nghasnewydd?

**Peter Fox** *Mynwy*

9

## OQ58024 (e)

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau'r stryd fawr?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

10

## OQ58019 (e)

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ardal fenter yng nghefn gwlad canolbarth Cymru?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

11

## OQ58007 (e)

Pa gymorth sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu mentrau cymdeithasol a'r economi gymdeithasol yng Nghanol De Cymru?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

12

## OQ57990 (e)

Beth yw targedau'r Gweinidog ar gyfer twf economaidd yn ystod tymor y Senedd hon?